

Blaenoriaethau Trwyddedu ar gyfer Radio Darlledu

Ymgynghoriad ar ddull strategol arfaethedig
Ofcom o drwyddedu radio darlledu

Ymgynghoriad

Dyddiad cyhoeddi: 11 Chwefror 2026

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 08 Ebrill 2026

I gael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn, ewch i [ofcom.org.uk](https://www.ofcom.org.uk)

Cynnwys

Adrannol

1. Trosolwg	3
2. Cefndir	4
3. Ystyriaethau ar gyfer ein strategaeth ddiwygiedig	7
4. Dull strategol a rhesymeg arfaethedig	13
5. Camau Nesaf.....	17

Atodiad

A1. Tabl dadansoddi	18
A2. Dyletswyddau a phwerau cyfreithiol	20
A3. Asesiadau effaith	21
A4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	24
A5. Egwyddorion ymgynghori Ofcom.....	27
A6. Taflen glawr yr ymgynghoriad.....	28
A7. Cwestiynau ymgynghori	29

1. Trosolwg

Yr hyn rydyn ni'n ei gynnig – yn gryno

Wrth i'r broses o gyflwyno'r rhaglen drwyddedu Darlledu Sain Ddigidol ar Raddfa Fach (SSDAB) ddod i ben, cynigiwn flaenoriaethu, lle bo'n briodol, y gweithgarwch trwyddedu darlledu canlynol ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig:

- ceisiadau i hysbysebu ardaloedd amlblecs SSDAB newydd;
- ceisiadau i hysbysebu rhagor o drwyddedau amlblecs DAB lleol mewn ardaloedd lle mae galw amlwg ac amledd ar gael;
- ceisiadau gan drwyddedwyr amlblecs SSDAB presennol i wella neu ymestyn cwmpas y amlblecs;
- dull mwy hyblyg, lle bo hynny'n briodol, wrth gymhwyso'r 'nenfwd 40%' ynghylch SSDAB;
- ystyried rowndiau ymgeisio am drwyddedau radio cymunedol FM newydd;
- ceisiadau am adnewyddu ac estyniadau ar gyfer trwyddedau analog masnachol a chymunedol;
- ceisiadau gan drwyddedeion analog masnachol a chymunedol presennol ar gyfer newidiadau technegol;
- cefnogaeth ar gyfer rhaglenni trwyddedu parhaus sydd eisoes yn cael eu cynnal;
- parhau i ddarparu cefnogaeth barhaus i wasanaethau trwyddedig presennol.

Rydym yn cynnig peidio â blaenoriaethu gwaith ar fathau o drwyddedau gyda chynulleidfaoedd sy'n lleihau, gwasanaethau cyfyngedig a/neu ychydig iawn o argaeledd sbectrwm. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, trwyddedau analog masnachol lleol newydd a thrwyddedau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau FM a DAB amlblecs.

Nod y cynigion yw gwneud y defnydd gorau o adnoddau sbectrwm cyfyngedig a chyflawni'r budd mwyaf i gynulleidfaoedd y DU, yn enwedig y rhai sydd heb eu gwasanaethu ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i gefnogi trwyddedu yr ydym yn ystyried y bydd, yn y rownd, yn darparu'r manteision mwyaf i ddefnyddwyr a dinasyddion.

Wrth ystyried y cynigion hyn, rydym wedi ystyried ein dyletswyddau, swyddogaethau, amodau'r farchnad ac arferion gwranddo cynulleidfaoedd.

Rydym yn gwahodd barn rhanddeiliaid ynghylch a ydynt yn cytuno â'n blaenoriaethau trwyddedu arfaethedig ar gyfer radio darlledu ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig.

Mae'r rhestr lawn o gwestiynau ymgynghori wedi'i nodi yn **Atodiad A6**.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 08 Ebrill 2026.

Crynodeb lefel uchel syml yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r cynigion yr ydym yn ymgynghori arnynt a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

2. Cefndir

- 2.1 Ofcom yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer sector cyfathrebu'r DU, gan gynnwys darlledu. Mae gennym ystod o ddyletswyddau a phwerau sy'n ymwneud â'r sector hwn, gan gynnwys y rhai yn Neddf Darlledu 1990 ('Deddf 1990'), Deddf Darlledu 1996 ('Deddf 1996'), Deddf Cyfathrebiadau 2003 ('Deddf 2003') a Deddf Telegraffeg Di-wifr 2006 ('Deddf 2006'). Ein prif ddyletswydd yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr (lle bo hynny'n briodol, trwy hyrwyddo cystadleuaeth). Yn gryno, mae hyn yn cynnwys sicrhau ystod eang o wasanaethau radio a theledu o ansawdd uchel, sicrhau ystod o ddarparwyr a hyrwyddo'r defnydd gorau posibl o sbectrwm. Swyddogaeth allweddol sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn yw ein pŵer i roi trwyddedau darlledu radio. Rydym yn esbonio ein dyletswyddau a'n pwerau yn fwy manwl yn Adran 3 isod.

Y system drwyddedu radio darlledu bresennol yn y DU

- 2.2 Ar hyn o bryd mae Ofcom yn trwyddedu gwasanaethau radio darlledu yn y DU mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys analog (AM ac FM) a Darlledu Sain Ddigidol (DAB). Mae'r tabl isod yn amlinellu'r gwahanol fathau o drwyddedu¹:

Ardal	Trwyddedau	
	Analog	Digidol
Cenedlaethol	Gwasanaethau cenedlaethol AM / FM (AN)	Gwasanaethau radio cenedlaethol (DN) Amlblecsau cenedlaethol (DM)
Lleol a rhanbarthol	Gwasanaethau masnachol lleol AM / FM (AL) Gwasanaethau cymunedol AC / FM (CR) Gwasanaethau cyfyngedig (RSL, gan gynnwys LRSL)	Gwasanaethau masnachol lleol (DP) Gwasanaethau cymunedol (C-DSP) Amlblecsau lleol (DL) Amlblecsau ar raddfa fach (DS)

- 2.3 Mae trwyddedau radio analog yn darparu ar gyfer y cynnwys a throsglwyddiad AM/FM, tra ar gyfer digidol rydym yn trwyddedu ac yn rheoleiddio cynnwys y gwasanaethau radio a'r amlblecsiau DAB² sy'n cario gwasanaethau radio ar wahân. Mae amlblecsau wedi'u rhannu'n dri math yn seiliedig ar eu lefel o sylw daearyddol – cenedlaethol, lleol a graddfa fach.
- 2.4 Yn ogystal, rydym yn cyhoeddi Trwyddedau Gwasanaeth Cyfyngedig (RSLs), sy'n cynnwys:
- 2.5 trwyddedau tymor byr sy'n cwmpasu darllediadau ar gyfer digwyddiadau penodol (e.e. sioeau, ffilmiau y gellir eu gwyllo o'r car a gwasanaethau radio pwrpasol ar gyfer defodau crefyddol fel Ramadan); a

¹ Y talfyriadau mewn cromfachau yn y tabl yw'r rhagddodiadau a ddefnyddir gan Ofcom i nodi'r mathau o drwyddedau.

² Amlblecsau yw'r ffordd y caiff cynnwys radio DAB a gynhyrchir gan orsafoedd radio ei gyfuno a'i ddosbarthu ar lefel leol neu genedlaethol, a all ddethol yr orsaf gartref, neu yn y car, ar ddyfais radio.

- trwyddedau ar gyfer gwasanaethau sy'n cwmpasu ardaloedd bach iawn (e.e. radio ysbytai a chanolfannau'r fyddin).
- 2.6 Mae Ofcom yn cyhoeddi trwyddedau darlledu newydd mewn amrywiaeth o ffyrdd, mewn prosesau dyfarnu cystadleuol a phrosesau nad ydynt yn gystadleuol, sy'n cadw at weithdrefnau manwl. Er enghraifft, ar gyfer trwyddedau radio cymunedol analog, dim ond yn ystod rownd drwyddedu y gellir cyflwyno ceisiadau i Ofcom ac o fewn y cyfnod a bennir mewn Gwahoddiad i Wneud Cais (ITA) cyhoeddedig.³
- 2.7 Ar gyfer pob math o drwydded ddarlledu, rhaid i Ofcom ystyried addasrwydd yr ymgeisydd i ddal trwydded a bydd yn ystyried y meini prawf perthnasol. Yn ogystal â thrwyddedu gwasanaethau darlledu newydd, mae Ofcom hefyd yn ystyried ceisiadau am newidiadau i drwyddedau darlledu presennol a gall: cymeradwyo ceisiadau am newidiadau technegol; rhoi caniatâd i drosglwyddo trwyddedau; ac, wrth i drwyddedau agosáu at eu dyddiadau gorffen, adnewyddu grantiau ac estyniadau i'w hyd. Rydym yn cyflawni ein gwaith yn y maes hwn yn unol â gofynion statudol.
- 2.8 Nid ydym yn trwyddedu gwasanaethau ar-lein yn unig.
- 2.9 Mae cofnodion Ofcom yn dangos bod tua 1,000 o orsafoedd wedi'u trwyddedu i ddarlledu ar DAB ledled y DU ar hyn o bryd. Mae yna gyfanswm o 543 o wasanaethau radio masnachol a chymunedol hefyd yn darlledu ar analog (mae'r ffigurau hyn yn eithrio gwasanaethau Radio'r BBC).

Y rhaglen DAB ar raddfa fach (SSDAB)

- 2.10 Mae DAB ar raddfa fach (SSDAB) yn darparu modd o ddarparu gwasanaethau radio digidol yn rhad i ardaloedd daearyddol cymharol fach. Mae'r rhaglen SSDAB wedi creu llwybr cadarn a dibynadwy i orsafoedd analog bach presennol ddarlledu ar ddigidol, yn ogystal â llwybr i newydd-ddyfodiaid sy'n dymuno lansio gwasanaethau radio ar blatfform daearol digidol.
- 2.11 Cynhaliodd Ofcom ymgynghoriad ar ein dull o drwyddedu SSDAB yn ystod 2019/20.⁴ Gwnaethom benderfynu, yn dilyn y broses honno, y byddai cyflwyno SSDAB yn darparu ar gyfer mwy o wasanaethau i fwy o gymunedau ledled y DU nag a fyddai'n bosibl trwy gynyddu nifer y trwyddedau analog. Yn ogystal, oherwydd y byddai trwyddedu SSDAB a gwasanaethau analog yn tynnu adnoddau o'r un timau Ofcom (ac ni allem ddarparu ar gyfer y ddau ar yr un pryd ar gyfradd dderbyniol), gwnaethom benderfynu blaenoriaethu'r rhaglen SSDAB ar gyfer trwyddedu ar y pryd. Ers hynny, nid ydym wedi trwyddedu unrhyw wasanaethau radio cymunedol analog FM newydd yn y DU (ac eithrio mewn un achos eithriadol⁵).
- 2.12 Mae Ofcom wedi hysbysebu trwyddedau amblecs SSDAB mewn sypiau trwy broses gystadleuol, lle mae ceisiadau'n cael eu barnu yn erbyn meini prawf statudol penodol. Y cynllun oedd gwneud dyfarniadau mewn wyth rownd a gwnaethom ein dyfarniadau

³ Er mwyn egluro ymhellach, mewn rowndiau trwyddedu blaenorol o'r math hwn, mae Ofcom wedi cyhoeddi Mynegiadau o Ddiddordeb i ddeall lefel y galw am geisiadau posibl ac i gwblhau dadansoddiad rhagarweiniol sbectrwm yn y meysydd y mae rhanddeiliaid wedi mynegi diddordeb. Mae hyn wedi galluogi Ofcom i wahodd ceisiadau mewn rhanbarthau penodol yn seiliedig ar y galw am drwydded mewn rhanbarthau penodol ac argaeledd amledd yn yr ardaloedd hyn.

⁴ Gweler y [Datganiad: Trwyddedu DAB ar raddfa fach – sut y bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau newydd](#)

⁵ Digwyddodd yr achos eithriadol hwn cyn i ni ddechrau rownd gyntaf trwyddedu SSDAB, a ohiriwyd gan y pandemig Covid-19.

amblecs cyntaf ym mis Mawrth 2021. Daeth y cyfnod ymgeisio ar gyfer Rownd Wyth (y rownd olaf drwyddedu olaf arfaethedig) i ben ar 10 Rhagfyr 2025 ac rydym wedi derbyn cyfanswm o 22 o geisiadau. Rydym yn disgwyl i'r asesiad o'r ceisiadau hyn gael ei gwblhau erbyn haf 2026.⁶

Ein cyfle i adolygu ein blaenoriaethau trwyddedu strategol ar gyfer radio darlledu

- 2.13 Wrth i'r rhaglen SSDAB bresennol ddod i ben, mae gennym gyfle i ystyried ein blaenoriaethau trwyddedu darlledu strategol ar gyfer radio ar gyfer y tymor byr i ganolig. Yn hyn o beth, rydym wedi ystyried:
- ein hymrwymadau presennol;
 - y dirwedd newidiol ar gyfer radio yn y DU;
 - tueddiadau cynulleidfa;
 - newidiadau yn y fframwaith cyfreithiol; ac
 - ystyriaethau adnoddau sbectrwm.
- 2.14 Yn ogystal, yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi [Galwad am Fewnbwn](#) ar ein Hadolygiad o Reoleiddio Darlledu. Gofynnodd hyn i randdeiliaid am eu barn ar sut mae angen i reoleiddio darlledu esblygu yn y tymor hwy i adlewyrchu'r newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae cynulleidfaoedd yn gwrando ac yn gweld cynnwys. Rydym yn cydnabod bod angen diwygio'r fframwaith trwyddedu sylfaenol yn y tymor hwy fel ei fod yn adlewyrchu amgylchedd cwbl ddigidol a byddai hyn yn gofyn am newid deddfwriaethol. Felly, mae'r ymgynghoriad hwn ar ein dull strategol diwygiedig ar gyfer trwyddedu radio darlledu wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â materion yn y tymor byr i ganolig a dylid ei ddarllen yng nghyd-destun ein hadolygiad ehangach o Reoleiddio Darlledu. Ein nod trwy ein cynigion yw defnyddio ein hadnoddau i gael y gwerth gorau i gynulleidfaoedd yn y tymor byr i ganolig trwy ein gwaith trwyddedu darlledu.
- 2.15 Mae'r adrannau nesaf yn nodi ein hystyriaethau, ein dadansoddiad ac yn egluro'r rhesymeg dros ein dull strategol arfaethedig.

⁶ Mae gan yr ymgeiswyr y dyfarnwyd trwyddedau ar raddfa fach 18 mis i'w lansio ar ôl eu dyfarnu, sy'n golygu bod yn rhaid i'r olaf o ddyfarnwyr Rownd 8 ddod ar yr awyr erbyn tua diwedd 2027.

3. Ystyriaethau ar gyfer ein strategaeth ddiwygiedig

- 3.1 Yn yr adran hon rydym yn archwilio'r materion yr ydym wedi'u hystyried wrth ddatblygu ein strategaeth arfaethedig ar gyfer y dyfodol.

Ein hymrwymiaadau presennol

- 3.2 Yn ein [Cynllun Gwaith 2025/26](#) gwnaethom ymrwymiaadau i gynnal y lefelau presennol o gymorth trwyddedu darlledu, gan gynnwys:
- 1.1 trwyddedu gwasanaethau darlledu teledu a radio: gwnaethom ddweud y byddwn yn parhau i gyhoeddi, rheoli a chynnal trwyddedau ar gyfer pob gwasanaethau teledu masnachol cenedlaethol a lleol, gwasanaethau radio cymunedol digidol masnachol a gwasanaethau radio analog cyfyngedig. Gwnaethom ddweud hefyd y byddem yn ymateb i geisiadau rhanddeiliaid i wneud newidiadau i'w trwyddedau lle bo hynny'n briodol;
 - 1.2 cefnogi llwyfannau ar gyfer gwasanaethau darlledu: gwnaethom ddweud y byddem yn parhau i drwyddedu gwasanaethau SSDAB ledled y DU ac yn cwblhau'r broses ar gyfer adnewyddu trwyddedau teledu lleol.
- 3.3 Rydym wedi gwneud cynnydd da ym mhob maes ar draws y cyfnod 25/26 hyd yn hyn.
- 3.4 Ar hyn o bryd mae Ofcom hefyd yn ymgynghori ar ei [Gynllun Gwaith Arfaethedig 2026/27](#). Yn yr ymgynghoriad, rydym wedi nodi ein bwriad arfaethedig i barhau i gyhoeddi, rheoli a chynnal trwyddedau ar gyfer yr holl wasanaethau teledu masnachol cenedlaethol a lleol, digidol masnachol a digidol cymunedol a gwasanaethau radio analog cyfyngedig. Rydym hefyd wedi dweud y byddwn yn parhau i ymateb i geisiadau rhanddeiliaid i wneud newidiadau i'w trwyddedau lle bo hynny'n briodol. Bydd Ofcom yn cyhoeddi datganiad ar ei Gynllun Gwaith 2026/7 terfynol ym mis Mawrth 2026.

Y dirwedd sy'n newid ar gyfer radio darlledu yn y DU

- 3.5 Cyflwynwyd gwasanaethau analog y BBC yn y 1920au ac fe'u dilynwyd gan radio masnachol yn y 1970au a radio digidol yn y 1990au. Mae'r sector wedi parhau i ehangu trwy wasanaethau ar-lein yn unig a chludo gwasanaethau trwyddedig trwy apiau fel BBC Sounds a Radioplayer. O ystyried y cynnydd mewn llwyfannau a gwasanaethau cynnwys, nid yw cynulleidfaoedd y DU erioed wedi cael eu gwasanaethu'n well o ran radio a sain.
- 3.6 Mae'r sector radio cymunedol yn arbennig wedi tyfu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda 300 o wasanaethau analog ar gael ar hyn o bryd, y mwyafrif helaeth ar FM, yn ogystal â dros 200 o CDSPs a gynhaliwyd ar DAB (trwy SSDAB neu, weithiau, DAB lleol) sy'n darparu cynnwys lleol i gymunedau ledled y DU.
- 3.7 Yn y cyfamser, nododd yr [Adolygiad Radio a Sain Ddigidol](#) DCMS (2021),⁷ a archwiliodd dueddiadau gwrando tebygol yn y dyfodol ac argymhellion ar gyfer cryfhau radio a Sain y

⁷ Comisiynwyd yr Adolygiad Radio a Sain Ddigidol gan y llywodraeth ym mis Chwefror 2020.

DU, "over the past seven years or so, the decline in AM listening has followed a relatively consistent, linear trajectory..."⁸ Esboniodd ymhellach:

*"given the steady decline in AM listening generally, further retirement of AM services and decommissioning of AM sites is likely to continue regardless of any regulatory intervention. In light of this, there is no need for regulatory intervention to set a single mandate AM switch-off date."*⁹

- 3.8 Ar ben hynny, nododd Adroddiad diweddar [Cyfryngau'r Genedl y DU, 2025](#) Ofcom fod nifer y gorsafoedd tonnau canolig AM (MW) yn gostwng, yn rhannol oherwydd y costau gweithredu uwch sy'n gysylltiedig â chynnal y seilwaith trawsyrru AM yn erbyn cynulleidfaoedd sy'n lleihau.¹⁰ Rydym yn nodi bod gan drosglwyddyddion AM ddefnydd o ynni cymharol uchel, ac mae llawer o'r seilwaith yn agosáu at ddiwedd ei oes ddefnyddiol. Yn wir, mae rhai trwyddedau radio AM fasnachol wedi cael eu trosglwyddo yn ôl i Ofcom yn ystod y blynyddoedd diwethaf¹¹ ac mae darparwyr eraill wedi ceisio lleihau darpariaeth eu trwyddedau radio masnachol cenedlaethol AM.¹²
- 3.9 Fodd bynnag, mae manteision o hyd i drosglwyddo AM, yn enwedig gallu darlledu dros bellteroedd hirach. Mae hyn yn ei wneud yn blatfform pwysig i rai cynulleidfaoedd a allai ddibynnu ar ei gyrhaeddiad estynedig pan nad yw FM a DAB yn ddigonol. Mae ei ddarpariaeth ddaearyddol eang hefyd yn rhoi'r gallu i AM dargedu cymunedau lleiafrifol penodol a allai fod wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol (e.e. cymunedau Asiaidd).
- 3.10 Daeth adroddiad yr [Adolygiad Radio a Sain Ddigidol](#) i'r casgliad hefyd:
- "... traditional radio, including FM services, is valued by many listeners - particularly those who are older or vulnerable, drive older cars or live in areas with limited DAB or broadband coverage. On current trends, therefore, the Review's conclusion is that FM will be needed until at least 2030."*¹³
- 3.11 Nododd yr adroddiad hefyd:
- " Whilst there is a degree of uncertainty with forward forecasts, 2030 is a realistic time frame providing a framework to guide decisions by industry stakeholders whilst giving reassurance for listeners that a broad range of FM stations will continue to be available. For this reason, it is recommended that Ofcom should, when carrying out its statutory requirements, continue to plan on the basis that spectrum for FM radio services will be needed until at least 2030."*¹⁴
- 3.12 Felly, rydym wedi meddwl yn ofalus am y dull strategol priodol ar gyfer ein blaenoriaethau trwyddedu darlledu yng nghyd-destun y dirwedd newidiol hon.

⁸ Paragraff 6.11 o [adolygiad radio a sain ddigidol](#).

⁹ Paragraff 6.12 o'r [adolygiad radio a sain ddigidol](#).

¹⁰ [Media Nations Ofcom 2025](#), t.71.

¹¹ Dyma'r broses lle mae trwyddedau'n cael eu trosglwyddo'n wirfoddol yn ôl i Ofcom, sy'n golygu na ellir darlledu'r gwasanaeth dan sylw yn gyfreithlon mwyach.

¹² Er enghraifft, gofynnodd talkSPORT am ganiatâd i leihau sylw ei drwydded radio masnachol cenedlaethol AM yn 2024/5 – gweler [Ymgynghoriad: talkSPORT – cynigion i leihau sylw AM](#).

¹³ Paragraff 0.13, [Adolygiad radio a sain ddigidol - GOV.UK](#).

¹⁴ Paragraff 6.8, [Adolygiad radio a sain ddigidol - GOV.UK](#).

Tueddiadau cynulleidfa

- 3.13 Mae radio yn parhau i fod yn boblogaidd iawn yn y DU: yn ôl RAJAR (y corff diwydiant sy'n gyfrifol am fesur cynulleidfaoedd radio yn y DU), roedd 86% o oedolion 15 oed a throsodd yn gwrandao ar y radio am gyfartaledd o 20.4 awr yr wythnos yn Ch3 2025.¹⁵ O ran demograffeg cynulleidfaoedd, mae gwrandao ar y radio yn gyffredinol yn tueddu i ddenu cynulleidfaoedd hŷn, gydag oedran cynulleidfa gyfartalog o 48, er bod hyn yn amrywio'n fawr yn ôl darlledwr, brand a math yr orsaf.¹⁶
- 3.14 Er bod cyrhaeddiad wythnosol yn parhau'n uchel, mae'r ffordd y mae pobl yn defnyddio radio yn newid. Mae adroddiad [Gwrandao Sain yn y DU](#) 2025 Ofcom, sy'n amlinellu ymchwil ddiweddaraf Ofcom i'r ffordd mae pobl yn gwrandao ar sain, yn dangos symudiad bras oddi wrth analog a thuag at lwyfannau digidol fel DAB ac ar-lein. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod technoleg DAB mewn ceir ar gael yn fwy eang, yn ogystal â mwy o ddefnydd o ddyfeisiau cysylltiedig gan gynnwys ffônau clyfar a seinyddion clyfar.¹⁷ Yn Ch3 2025, roedd DAB yn cyfrif am 42% o wrando ar y radio byw, tra bod seinyddion clyfar a dyfeisiau ar-lein eraill yn cyfrif am 30% a setiau radio AM/FM 26%.¹⁸ Fodd bynnag, mae gwrandao DAB yn dibynnu'n fawr ar lefelau darpariaeth, sy'n amrywio ledled y DU – nododd adroddiad diweddaraf [Cyfryngau'r Genedl DU 2025](#), er bod Lloegr yn mwynhau lefelau uchel o sylw DAB ar gyfer cartrefi a phrif ffyrdd, mae lefelau sylw yng Nghymru a'r Alban, yn enwedig ar gyfer amlblecsau Sound Digital¹⁹ a DAB lleol, yn parhau i fod yn is, gan gyfyngu o bosibl ar ddewis gwrandawyr mewn rhai ardaloedd.
- 3.15 Mae gorsafoedd **radio masnachol** yn cyfrif am y rhan fwyaf o wrando ar y radio byw (54.9% o oriau wythnosol), yn bennaf yn deillio o gynnydd mewn darpariaeth DAB (mae canran uwch o wrando trwy DAB ar radio masnachol nag ar lwyfannau eraill) ac ymdrech gan y sector i wneud y defnydd mwyaf o'r amlblecsau a'r brandiau radio presennol.²⁰
- 3.16 Fodd bynnag, **radio cymunedol** sy'n cyfrif am y nifer fwyaf o drwyddedau FM unigol. Mae'r gorsafoedd hyn fel arfer yn cwmpasu ardal ddaearyddol fach ac, mewn rhai achosion, nid ydynt ar gael ar DAB oherwydd diffyg amlblecs SSDAB lleol neu oherwydd bod cludo ar amlblecsiau masnachol lleol yn ariannol anhyfyw ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau radio cymunedol (ac yn llawer mwy na'r ardal sy'n dymuno cael y ddarpariaeth).
- 3.17 Mae'n ofyniad statudol i wasanaethau radio cymunedol, analog a digidol, ddarparu manteision pendant i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu trwy ddarparu budd cymdeithasol. Adroddodd ymchwil a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Ofcom i [fesur budd cymdeithasol radio cymunedol](#):

"Community radio stations play an important role in providing a voice to local communities across the UK. They serve as a platform for underrepresented groups,

¹⁵ RAJAR Ch3 2025.

¹⁶ [Cenedloedd Cyfryngau Ofcom 2025 - Adroddiad y DU](#), t.83.

¹⁷ [Gwrandao Sain yn y DU 2025](#) Ofcom, t.12.

¹⁸ RAJAR Ch3 2025. Teledu digidol a oedd yn cyfrif am yr oriau sy'n weddill (3%). Mae'r ffigur DAB yn cynnwys DAB+.

¹⁹ Mae Sain Ddigidol yn amlblecs radio digidol masnachol cenedlaethol yn y DU, sy'n eiddo i Arqiva, Bauer Media Group a News Broadcasting. Mae'r amlblecs yn cwmpasu 73% o'r boblogaeth o gyfanswm o 45 trosglwyddydd.

²⁰ [Cenedloedd Cyfryngau Ofcom 2025 - Adroddiad y DU](#), t.80/81.

*encouraging local identity, culture, and social engagement. These stations are operated largely by volunteers and offer a unique mix of locally-produced content that reflects the diverse interests and needs of their target communities. Beyond entertainment, community radio contributes to social inclusion, education, civic participation, and local economic development."*²¹

- 3.18 Felly, er gwaethaf yr heriau technolegol, mae'n amlwg bod rhai cymunedau a grwpiau o'r boblogaeth yn dal i werthfawrogi gwasanaethau analog . Rydym wedi ystyried hyn wrth gynnig ein blaenoriaethau strategol diwygiedig.

Argaeledd sbectrwm

- 3.19 Fel rheoleiddiwr cyfathrebu'r DU, ni sy'n rheoli'r [sbectrwm radio](#). Mae angen rheoli'r adnodd cenedlaethol cyfyngedig hwn yn ofalus i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon a bod ymyrraeth rhwng defnyddwyr yn cael ei reoli. O ganlyniad, defnyddir rhai bandiau o sbectrwm at wahanol ddibenion. Er enghraifft, mae radio DAB, FM ac AM i gyd yn cael eu trosglwyddo ar wahanol rannau o'r sbectrwm.
- 3.20 Gan ein bod wedi bod yn trwyddedu gwasanaethau analog a digidol ers sawl degawd, mae faint o sbectrwm sydd ar gael ar gyfer mathau penodol o drwyddedu radio darlledu newydd yn gyfyngedig iawn. Fodd bynnag, nid yw'r cyfyngiadau hyn wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws y sbectrwm. Er enghraifft, mae gorsafoedd radio cenedlaethol yn gweithredu ar bŵer uchel ac felly wedi defnyddio rhannau mawr o'r sbectrwm sydd ar gael, tra bod gorsafoedd radio cymunedol (er enghraifft) wedi cael eu "ffitio i mewn" i'r bylchau llai.
- 3.21 Nid oes mwy o gapasiti ar gyfer unrhyw wasanaethau radio FM cenedlaethol ychwanegol, nac ar gyfer gwasanaethau darpariaeth ardal eang ychwanegol yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Mae rhai cyfleoedd yn bodoli mewn ardaloedd mwy prin eu poblogaeth lle mae'r galw wedi bod yn is, er y gall hyfywedd ariannol fod yn fwy heriol. Yn dibynnu ar y lleoliad targed, gallai cwmpas unrhyw wasanaethau FM newydd fod yn gyfyngedig iawn i ffitio i'r gofod sydd ar gael heb achosi ymyrraeth i wasanaethau presennol.
- 3.22 Ar gyfer DAB, mae'r sefyllfa yn debyg gan nad oes argaeledd ar gyfer amblecs DAB cenedlaethol ychwanegol a dim ond cyfleoedd cyfyngedig sydd ar gyfer mwy o amblecsau ar raddfa leol. Mae rhai cyfleoedd ar gyfer SSDAB mewn ardaloedd lle nad ydym wedi hysbysebu amblecsiau o'r blaen. Yn yr un modd, mae cyfleoedd cyfyngedig yn bodoli lle rydym wedi hysbysebu trwyddedau ond nid yw'r gwasanaethau wedi gwneud cais amdanynt na'u lansio neu wedi cwmpasu ardaloedd daearyddol mwy cyfyngedig nag a ragwelwyd yn wreiddiol.²²

²¹ Crynodeb Gweithredol, [Mesur Budd Cymdeithasol Radio Cymunedol](#).

²² Mae'r rhesymau pam mae rhai gwasanaethau amblecs wedi methu â lansio ar ôl iddynt gael trwydded yn cael eu hegluro a'u hystyried yn ein [hadroddiad cynnydd SSDAB 2024](#).

Newidiadau i'r fframwaith cyfreithiol – cyflwyno Deddf y Cyfryngau 2024

- 3.23 Mae'r fframwaith cyfreithiol perthnasol yn deillio'n bennaf o'n dyletswyddau a'n pwerau yn Neddf 2003, WTA 2006, Deddf 1990 a Deddf 1996, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag estyn trwyddedau cymunedol neu fasnachol lleol presennol.²³
- 3.24 Wrth weithredu Rhan 5 ("Rheoleiddio Gwasanaethau Radio") o [Ddeddf y Cyfryngau 2024](#) (y 'Ddeddf Cyfryngau') newidiodd y fframwaith cyfreithiol ar gyfer ein gwaith trwyddedu radio analog lleol, sef y diweddariad mawr cyntaf i ddeddfwriaeth y cyfryngau ers 20 mlynedd. Gwnaeth Deddf y Cyfryngau ddileu'r gofyniad i drwyddedau radio AM/FM masnachol lleol gynnwys amodau ar gyfer cadw at "Fformat" (a oedd yn pennu cymeriad cyffredinol yr orsaf, gan gynnwys genre cerddoriaeth, demograffig cynulleidfa, newyddion a chynnwys lleol, er mwyn targedu demograffeg gwrandawyr penodol). Cyflwynodd Deddf y Cyfryngau ofynion newydd a o ra newyddion a gwybodaeth leol a chyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad arnynt ym mis Gorffennaf 2025. Cafodd amodau trwydded bresennol sy'n ymwneud â newyddion a gwybodaeth eu cadw, hyd nes y byddwn yn amrywio trwyddedau i gynnwys yr amodau newydd yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw.
- 3.25 Gwnaeth Deddf y Cyfryngau hefyd newidiadau i'r ffordd y mae Ofcom yn rheoleiddio amblecsiau radio DAB cenedlaethol a lleol. Yn benodol, nid oes gennym bellach y pŵer i gymeradwyo neu wrthod newidiadau yn amserlen ac, felly, ni fydd natur y gwasanaeth y mae ymgeiswyr yn bwriadu ei ddarparu yn ffactor perthnasol o ran p'un a ydynt yn cael eu cymeradwyo ai peidio (nid yw'r newid hwn yn effeithio ar amblecsiau SSDAB). Ochr yn ochr â hyn, mae'r meini prawf statudol a ddefnyddir gan Ofcom wrth wneud penderfyniadau trwyddedu ar gyfer trwyddedau amblecs DAB masnachol lleol newydd wedi newid. Mae'r meini prawf statudol sy'n ymwneud â llinellau gwasanaeth wedi'u dileu.

Ystyried y polisi nenfwd o 40%

- 3.26 Wrth wahodd ceisiadau am drwyddedau amblecs SSDAB, mae'n ofynnol i ni ar hyn o bryd ystyried "dymunolrwydd" sicrhau nad yw'r boblogaeth a gwmpesir gan wasanaeth amblecs radio ar raddfa fach yn gorgyffwrdd â mwy na 40% o'r boblogaeth yn ardal drwyddedig gwasanaeth amblecs radio lleol presennol (y "nenfwd o 40%"). Yn ymarferol, mae Ofcom wedi mabwysiadu'r ymagwedd fod hwn yn adlewyrchu bwriad yn y ddeddfwriaeth i gyfyngu ar orgyffwrdd yn unol â hynny mewn trwyddedau a ddyfarnwyd.²⁴ Felly, yn dilyn ymgynghoriad <https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/consultations/licensing-small-scale-dab/associated-documents/secondary-documents/consultation-licensing-small-scale-dab.pdf?v=324060> ar sut y byddem yn arfer ein pwerau yn y maes newydd hwn, gwnaethom benderfynu yn 2020 y byddem yn "cymhwyso'r trothwy gorgyffwrdd o 40% ym mhob achos" (pwyslais wedi'i ychwanegu) ar y sail bod "cymhwyso'r terfyn 40% yn llym yn rhoi mantais eglurder i randdeiliaid ynghylch yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad

²³ Gweler adran 253 o'r Ddeddf 2003.

²⁴ Adlewyrchir hyn yn [natganiad](#) DCMS ar ei ymgynghoriad yn 2018 cyn pasio Gorchymyn Amblecs Radio a Radio Digidol Cymunedol ar raddfa fach 2019 drwy'r Senedd.

yw'n dderbyniol".²⁵ Fodd bynnag, fel y nodir yn yr adran nesaf, rydym o'r farn ei bod yn briodol adolygu ein dull o ymdrin â hyn.

Crynodeb o'r ystyriaethau

- 3.27 Mae **Atodiad A1** yn nodi tabl o fathau o drwyddedau a throsolwg o rai o'r ffactorau a ystyriwyd uchod. Yn hyn o beth, mae galw uchel am drwyddedu digidol gan randdeiliaid, tra bod galw am drwyddedu analog FM yn parhau yn arbennig mewn lleoliadau gwledig sydd heb eu gwasanaethu. Mae'r tabl hefyd yn nodi lle nad oes sbectrwm ychwanegol ar gael (DAB a FM cenedlaethol). Yn olaf, gwyddom fod cynnal trwyddedu presennol ar gyfer trwyddedu DAB cenedlaethol a lleol, ynghyd â thrwyddedu RSL a cheisiadau am newidiadau technegol (gwelliannau ac estyniadau) yn cynnig y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau Ofcom gan ystyried yr holl ffactorau gan gynnwys cyrhaeddiad y gynulleidfa.

²⁵ Paragraff 4.30, [Datganiad: Trwyddedu DAB ar raddfa fach – sut y bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau newydd](#).

4. Dull strategol a rhesymeg arfaethedig

- 4.1 Mae Ofcom wedi ystyried yn ofalus y gwaith trwyddedu radio darlledu presennol yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd, yn ogystal â'r materion a restrir uchod, er mwyn penderfynu sut i flaenoriaethu cyfleoedd trwyddedu mewn ffordd a fydd yn cynnig y budd mwyaf i gynulleidfaoedd, ac ar yr un pryd yn lleihau'r effeithiau ar randdeiliaid y diwydiant. Wrth lunio'r cynigion isod, rydym wedi ystyried ein dyletswyddau a'n pwerau ac wedi nodi'r rhain yn fyr yn **Atodiad A2** isod.²⁶
- 4.2 Yn seiliedig ar yr ystyriaethau a amlinellir uchod ac yn **Atodiad A1**, rydym wedi nodi'r camau gweithredu arfaethedig canlynol:
- 4.3 Rydym yn bwriadu blaenoriaethu, lle bo hynny'n briodol, geisiadau i hysbysebu ardaloedd amlblecs SSDAB newydd. Byddai amlblecsiau SSDAB mewn ardaloedd newydd yn caniatáu i ddarlledwyr ddarparu ystod o wasanaethau DAB i gynulleidfaoedd sy'n byw yn yr ardal, gan gynnwys gwasanaethau cymunedol. Ar ben hynny, mae sbectrwm ar gael mewn llawer o ardaloedd lle nad oes amlblecs SSDAB eto. Fodd bynnag, rydym yn cynnig hysbysebu ardaloedd newydd ar *sail ad hoc*, dim ond lle mae tystiolaeth glir o'r galw a'r potensial am wasanaeth cynaliadwy. Mae hyn oherwydd bod gwneud y dyfarniadau hyn yn cymryd amser cymharol hir, ac mae yna gost o ran cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch trwyddedu posibl arall. Rydym eisiau, felly, i'r gwasanaethau fod yn debygol o lansio a bod yn hirhoedledd. Mewn achosion o'r fath, a phan fo gennym dystiolaeth glir a chadarn o alw drwy fynegiadau o ddiddordeb a ddarperir ar sail ad-hoc i Ofcom, cynigiwn y byddem yn cyhoeddi hysbyseb trwydded fesul achos, ac nid o fewn rowndiau strwythuredig fel yr ydym wedi'i wneud hyd yma.
- 4.4 Rydym hefyd yn cynnig blaenoriaethu, lle bo hynny'n briodol, geisiadau i hysbysebu rhagor o drwyddedau amlblecs DAB lleol mewn ardaloedd lle mae galw amlwg (mae amlblecsau lleol presennol ar gapasiti llawn neu nad yw'r ardal yn cael ei gwasanaethu) ac mae amledd ar gael. Byddwn yn ystyried gwahodd ceisiadau am amlblecsiau radio masnachol lleol newydd pe bai tystiolaeth o alw a chefnogaeth sylweddol.
- 4.5 Byddwn yn sianelu adnoddau tuag at geisiadau gan drwyddedwyr amlblecs SSDAB presennol i wella ac ymestyn cwmpas. Gallai hyn helpu trwyddedeion i wella sylw cyfagos ar gyfer eu cynulleidfaoedd, yn enwedig y rhai sy'n teithio mewn ceir, a helpu i gefnogi cynaliadwyedd y sector. Mae sbectrwm ar gael (gyda rhai cyfyngiadau). Os byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig hwn, byddem yn disgwyl i drwyddedeion wneud cais gan ddefnyddio'r broses sefydledig ar gyfer gwelliannau cwmpas a nodir yn Adran 7 o'r [Nodiadau Canllaw SSDAB](#) a byddem yn ystyried ceisiadau fesul achos. Byddai'r cymwysiadau hyn yn ymuno â "ciw" yn yr un modd ag y mae gwelliannau ac estyniadau analog yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.
- 4.6 Wrth asesu unrhyw geisiadau am welliant neu estyniad i'r ddarpariaeth ar ôl lansio, rydym yn cynnig yn benodol – lle bo'n briodol – i fod yn fwy hyblyg yn ein cymhwysiad

²⁶ Fodd bynnag, nid yw hwn yn ddatganiad llawn o'r holl ddarpariaethau cyfreithiol a allai fod yn berthnasol i swyddogaethau Ofcom i drwyddedu radio.

o'r 'uchafswm 40%' o ran SSDAB. Mae hyn er mwyn osgoi canlyniadau gwyrddoedig lle, er enghraifft, caiff gwelliant sy'n cynnig budd sylweddol i'r ddarpariaeth ei wrthod oherwydd bod y gorgyffwrdd ag amblecs DAB lleol ychydig yn uwch na 40%. Fodd bynnag, ni fyddai'n fwriad gennym gefnu ar y targed o 40%, o ystyried bod y 40% yn adlewyrchu'r bwriad yn y ddeddfwriaeth, sef lle mae gorgyffwrdd ag amblecs radio lleol, y dylai'r amblecs ar raddfa fach wasanaethu lleiafrif clir yn unig o'r boblogaeth yn ardal drwyddedig yr amblecs radio lleol yn unig. O'r herwydd, byddai'r rhagdybiaeth yn parhau mewn achosion lle ceir mwy o orgyffwrdd mwy. Fodd bynnag, gellid gwrthbrofi hyn mewn amgylchiadau eithriadol lle gellid cyflawni budd sylweddol i'r cyhoedd drwy fynd ychydig bach dros y lefel o 40%.

4.7 Byddwn yn ystyried gwahodd ceisiadau am drwyddedau radio FM cymunedol newydd. O ystyried y newidiadau mewn arferion cynulleidfa a amlinellir uchod, credwn fod DAB yn fwy addas yn y rhan fwyaf o ardaloedd, a byddai'n darparu canlyniadau gwell i gynulleidfaoedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai fod galw am drwyddedau radio FM cymunedol newydd mewn ardaloedd gwledig lle mae gwasanaethau DAB yn anghynladwy yn ariannol. Rydym yn nodi bod ardaloedd gwledig hefyd yn llai tebygol o gael eu gwasanaethu â chysylltedd band eang cyflym. Efallai y bydd ardaloedd, hyd yn oed lle mae DAB ar gael, lle mae'r derbyniad yn ddarnau neu lle mae cymuned benodol yn cael ei danwasanaethu. Pe byddem yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig hwn:

- Bydd Ofcom yn ystyried ceisiadau gan unrhyw randdeiliad sy'n dymuno darparu gwasanaeth radio cymunedol FM analog. Unwaith y bydd y ffenestr ymgeisio wedi cau, bydd Ofcom yn asesu a oes sbectrwm ar gael yn y lleoliadau arfaethedig. Bydd ymgeiswyr yn cael eu cynghori lle nad oes sbectrwm addas ar gael i gefnogi eu gwasanaeth arfaethedig. Fodd bynnag, lle bydd sbectrwm ar gael, byddwn yn asesu'r ceisiadau yn erbyn y meini prawf statudol ac yn gwrthod y rhai nad ydynt yn cyrraedd y safon ofynnol.
- O dan y cynnig hwn, byddai Ofcom yn cyhoeddi ITA i nodi'r broses ymgeisio. Byddai Ofcom yn mynd ymlaen i wneud penderfyniadau ar geisiadau yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi presennol. Ein disgwyliad yw y byddwn yn cyhoeddi ITA naill ai ochr yn ochr neu'n fuan ar ôl cyhoeddi'r datganiad terfynol mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn, yr ydym yn disgwyl iddo fod rhwng canol a diwedd haf 2026.

4.8 Byddwn yn parhau i flaenoriaethu ceisiadau i adnewyddu ac estyn "hyd" trwyddedau analog masnachol a chymunedol. Mae analog yn dal i gyfrif am gyfran sylweddol o wrando ar radio ac felly rydym o'r farn bod galw parhaus am adnewyddu/estyn trwyddedau radio masnachol a chymunedol analog presennol. Mae cost yr adnoddau yn gymharol isel ac nid oes angen sbectrwm ychwanegol ar gyfer adnewyddu ac estyniadau.

4.9 Byddwn yn parhau i flaenoriaethu ceisiadau gan drwyddedwyr analog masnachol a chymunedol presennol ar gyfer newidiadau technegol, gan gynnwys gwelliannau i'r ddarpariaeth ac estyniadau i'r gwasanaeth, er mwyn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well yn eu hardal. Bydd y ceisiadau hyn yn ymuno â 'ciw' o geisiadau i'w trin pan fydd gennym ddigon o adnoddau ar gael, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae costau adnoddau ar gyfer yr asesiadau hyn yn gymharol isel ac mae sbectrwm ar gael (er gyda rhai cyfyngiadau ar gyfer FM).

4.10 Byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth ar gyfer rhaglenni trwyddedu darlledu parhaus sydd eisoes yn cael eu cynnal. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi trwyddedau newydd ar gyfer gwasanaethau cymunedol a masnachol ar DAB, ac RSLs. Fel yr amlinellir ym mharagraff

3.14 uchod, mae DAB yn parhau i fod yn blatfform poblogaidd ac mae parhau â'r rhaglenni trwyddedu hyn yn sicrhau bod ystod o wasanaethau yn cael eu darparu ar gyfer cynulleidfaoedd. Mae'r gost adnoddau ar gyfer y math hwn o waith hefyd yn gymharol isel ac mae'r buddion i'r gynulleidfa yn gymharol uchel.

4.11 Nid ydym yn bwriadu cynnig trwyddedau analog masnachol lleol newydd. Fel y nodir uchod, mae gwrando ar radio analog wedi gostwng i 26%, o'i gymharu â 30% ar-lein a thrwy seinyddion clyfar. Yn y cyfamser, mae gwrando ar DAB bellach yn cyfrif am 42%, sy'n dangos newid cynulleidfa barhaus i radio trwy ddulliau digidol. Rydym yn derbyn bod cyfran y gwrandawyr sy'n parhau i wrando ar radio masnachol drwy radios AM/FM yn gyfiawnhad i Ofcom barhau i gefnogi trwyddedwyr radio masnachol analog presennol, ond nid ydym o'r farn bod galw sylweddol gan gynulleidfa am drwyddedau radio masnachol newydd ers i Ofcom gwblhau'r rownd ddiwethaf o drwyddedau radio masnachol a ddyfarnwyd yn gystadleuol yn 2008. Ystyriaeth arall yw, fel y nodwyd yn Adran 3 uchod, efallai y bydd angen i ddarpariaeth unrhyw wasanaethau FM newydd fod yn gyfyngedig iawn i ffitio i'r sbectrwm sydd ar gael, neu fod mewn ardaloedd mwy prin eu poblogaeth. Mae'r ddau ffactor hyn yn rhwystrau i gyflawni graddfa gynaliadwy ar gyfer gorsafoedd radio masnachol, sy'n sector lle rydym wedi gweld cydgrynhoi sylweddol yn y degawd diwethaf er mwyn parhau i fod yn hyfyw. Yn olaf, rydym yn rhagweld y byddai dylunio ac ymgynghori ar fframwaith trwyddedu newydd yn cymryd cryn dipyn o amser. Am yr holl resymau hyn, rydym o'r farn bod canolbwyntio ar feysydd eraill o waith trwyddedu yn fwy tebygol o ddiwallu anghenion a diddordebau cynulleidfaoedd y DU wrth i wrando symud i lwyfannau digidol. O ystyried y manteision cynulleidfa gyfyngedig yr ydym yn disgwyl i drwyddedau o'r fath eu cyflawni yn y tymor byr, a'r angen i sicrhau bod ein hadnoddau yn cael eu cyfeirio lle gallant gael yr effaith gyffredinol fwyaf, rydym o'r farn bod ein hymdrechion yn canolbwyntio'n well ar gefnogi gwasanaethau sy'n cynnig manteision ehangach i wrandawyr a'r sector.

4.12 Nid ydym yn gallu darparu unrhyw drwyddedau darlledu cenedlaethol newydd pellach mewn perthynas â gwasanaethau FM a DAB amlblecsau, o ystyried y diffyg argaeledd sbectrwm. Yng ngoleuni'r cynulleidfaoedd sy'n gostwng ar gyfer AM a'r duedd yr ydym wedi'i arsylwi o drwyddedau AM genedlaethol presennol yn cael eu trosglwyddo yn ôl i ni, rydym yn cynnig na ddylai sicrhau bod rhagor o drwyddedau AM genedlaethol ar gael yn flaenoriaeth.

4.13 **Felly, rydym yn cynnig blaenoriaethu, lle bo hynny'n briodol, y gweithgaredd trwyddedu darlledu canlynol ar gyfer y tymor byr i ganolig:**

- ceisiadau i hysbysebu ardaloedd amlblecs SSDAB newydd;
- ceisiadau i hysbysebu rhagor o drwyddedau amlblecs DAB lleol mewn ardaloedd lle mae galw amlwg ac amledd ar gael;
- ceisiadau gan drwyddedwyr amlblecs SSDAB presennol i wella neu ymestyn cwmpas y amlblecs;
- dull mwy hyblyg, lle bo hynny'n briodol, wrth gymhwyso'r 'nenfwd 40%' ynghylch SSDAB;

4.14 ystyried rowndiau ymgeisio am drwyddedau radio cymunedol FM newydd;

4.15 ceisiadau i adnewyddu ac estyn trwyddedau analog masnachol a chymunedol;

- ceisiadau gan drwyddedeion analog masnachol a chymunedol presennol ar gyfer newidiadau technegol;
- cefnogaeth ar gyfer rhaglenni trwyddedu parhaus sydd eisoes yn cael eu cynnal;
- parhau i ddarparu cefnogaeth barhaus i wasanaethau trwyddedig presennol.

Asesiad effaith

- 4.16 Rydym wedi nodi ein dyletswyddau perthnasol a'n hystyriaeth o effaith ein cynigion yn **Atodiad A3** isod.

Cwestiynau ymgynghori

- 4.17 Mae Ofcom yn croesawu barn rhanddeiliaid ar ein blaenoriaethau trwyddedu darlledu arfaethedig ar gyfer y tymor byr i ganolig. Mae'r cwestiynau ymgynghori wedi'u nodi isod ac yn **Atodiad A6**.

Cwestiwn 1 o'r ymgynghoriad:

Ydych chi'n cytuno â'r blaenoriaethau trwyddedu darlledu arfaethedig ar gyfer y tymor byr i ganolig? Rhwch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 2 o'r ymgynghoriad:

Ydych chi'n ystyried y bydd y blaenoriaethau trwyddedu darlledu arfaethedig ar gyfer y tymor byr i ganolig yn darparu darpariaeth ddigonol i gynulleidfaoedd? Rhwch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 3 o'r ymgynghoriad:

Ar gyfer ceisiadau gwella neu estyn amblecs SSDAB ar ôl lansiad yn unig, a ydych chi'n cytuno â'n newid arfaethedig yn y dull o gymhwyso'r rheol sy'n cyfyngu gorgyffwrdd ag amblecs lleol i 40% o'r boblogaeth sydd eisoes wedi'i gwmpasu gan amblecs lleol (y "nenfwd 40%")? Rhwch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 4 o'r ymgynghoriad:

Ydych chi'n cytuno â dadansoddiad Ofcom yn adran 3 ac yn Atodiad A1 o'r mathau presennol o drwyddedau darlledu? Rhwch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 5 o'r ymgynghoriad:

Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad ar effaith ein blaenoriaethau trwyddedu darlledu arfaethedig ar gyfer y tymor byr i ganolig yn Atodiad A3? Rhwch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 6 o'r ymgynghoriad:

Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar y cynigion?

5. Camau Nesaf

- 5.1 Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor am wyth wythnos. Rydym yn gwahodd rhanddeiliaid i ymateb unrhyw bryd cyn i'r ymgynghoriad gau, gan ateb unrhyw un neu bob un o'r cwestiynau ymgynghori.
- 5.2 Gall Ofcom ddarparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau ar gais, e.e. PDF hygyrch, print bras, hawdd ei ddarllen, recordiad sain, neu braille. Os byddwch yn rhoi gwybod i ni pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac ym mha fformat, byddwn yn ystyried y cais ac yn ymateb o fewn 21 diwrnod.
- 5.3 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, a chyn cyhoeddi'r blaenoriaethau trwyddedu darlledu diwygiedig ar gyfer y tymor byr i ganolig, bydd ein blaenoriaethau trwyddedu presennol yn parhau i fod yn berthnasol.
- 5.4 Unwaith y bydd yr ymgynghoriad yn cau, byddwn yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd, ac yna byddwn yn cyhoeddi datganiad sy'n crynhoi'r ymatebion hyn ac yn nodi ein penderfyniad terfynol. Byddwn yn ystyried a ddylai unrhyw un o'r ymatebion a/neu dystiolaeth a dderbyniwyd newid ein cynigion.
- 5.5 Os, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn penderfynu gweithredu set wahanol o flaenoriaethau trwyddedu ar gyfer radio darlledu yn y tymor byr i ganolig, byddwn yn cyhoeddi datganiad i'r perwyl hwn.

A1. Tabl dadansoddi

Gwasanaeth	Aliniad â'r dirwedd sy'n newid	Galw cynulleidfa canfyddedig	Argaeledd sbectrwm
AM cenedlaethol	X	X (ac eithrio rhai lleoliadau gwledig)	✓
AM lleol	X	X (ac eithrio rhai lleoliadau gwledig a chymunedau lleiafrifol)	✓
AM Cymunedol	X	X (ac eithrio rhai lleoliadau gwledig a chymunedau lleiafrifol)	✓
AM RSLs	X	X (ac eithrio rhai lleoliadau gwledig a chymunedau lleiafrifol)	✓
FM cenedlaethol	X (gwell nag AM ond yn dirywio yn y tymor hir)	✓	X
FM lleol	X (gwell nag AM ond yn dirywio yn y tymor hir)	✓	✓ (ond yn bennaf dim ond ar gyfer rhai ardaloedd sydd heb eu gwasanaethu ar hyn o bryd)
FM cymunedol	X (gwell nag AM ond yn dirywio yn y tymor hir)	✓	✓ (ar gyfer rhai ardaloedd, mannau cyfyng mewn rhai dinasoedd)
FM RSLs	X (gwell nag AM ond yn dirywio yn y tymor hir)	?	✓ (ar gyfer y rhan fwyaf o ardaloedd, mannau cyfyng mewn rhai dinasoedd)
DAB cenedlaethol	✓	✓	X

Gwasanaeth	Aliniad â'r dirwedd sy'n newid	Galw cynulleidfa canfyddedig	Argaeledd sbectrwm
DAB lleol	✓	✓	✓ (ar gyfer rhai ardaloedd)
SSDAB	✓	✓	✓ (er bod rhai cyfyngiadau mewn ardaloedd tagfeydd)

A2. Dyletswyddau a phwerau cyfreithiol

- A2.1 Prif ddyletswydd Ofcom wrth gyflawni ei swyddogaethau yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr (lle bo'n briodol trwy hyrwyddo cystadleuaeth). Yn benodol, mae'n ofynnol i ni sicrhau argaeledd ledled y Deyrnas Unedig o ystod eang o wasanaethau teledu a radio sydd (wedi'u cymryd yn ei gyfanrwydd) o ansawdd uchel ac wedi'i apelio at amrywiaeth o chwaeth a diddordebau, cynnal lluosogrwydd digonol o ddarparwyr gwahanol wasanaethau teledu a radio a'r defnydd gorau posibl o sbectrwm.²⁷
- A2.2 Wrth gyflawni ein dyletswyddau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â thrwyddedu radio, rhaid i ni ystyried fel perthnasol, ymhlith pethau eraill: dymunoldeb annog buddsoddiad ac arloesi; anghenion a buddiannau gwahanol pob person a allai fod yn dymuno defnyddio sbectrwm; anghenion pobl ag anableddau, yr henoed a'r rhai ar incwm isel; barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol ac aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol; a buddiannau gwahanol bersonau yn y gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd trefol.
- A2.3 Yn ogystal, mae'n ofynnol i ni hefyd, wrth gyflawni ein dyletswydd i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr, roi sylw, yn benodol, i fuddiannau'r defnyddwyr hynny mewn perthynas â dewis, pris, ansawdd y gwasanaeth a gwerth am arian.²⁸
- A2.4 Lle mae'n ymddangos i ni fod unrhyw un o'n dyletswyddau cyffredinol yn gwrthdaro â'i gilydd mewn achos penodol, rhaid i ni sicrhau bod y gwrthdaro yn cael ei ddatrys yn y ffordd yr ydym yn meddwl sydd orau yn yr amgylchiadau.²⁹
- A2.5 Wrth gyflawni ein swyddogaethau sbectrwm, mae gennym ddyletswydd o dan adran 3 o Ddeddf 2006 i roi sylw yn benodol i: (i) i ba raddau y mae'r sbectrwm ar gael i'w ddefnyddio neu ei ddefnyddio ymhellach ar gyfer telegraffeg ddiwifr, (ii) y galw am ddefnyddio'r sbectrwm hwnnw ar gyfer telegraffeg ddiwifr a (iii) y galw sy'n debygol o godi yn y dyfodol am ddefnyddio'r sbectrwm hwnnw ar gyfer telegraffeg ddiwifr. Mae gennym hefyd ddyletswydd i roi sylw, yn benodol, i hyrwyddo: (i) rheoli a defnyddio'r sbectrwm ar gyfer telegraffeg ddi-wifr yn effeithlon, (ii) y manteision economaidd ac eraill a allai godi o ddefnyddio telegraffeg ddiwifr, (iii) datblygu gwasanaethau arloesol a (iv) cystadleuaeth wrth ddarparu gwasanaethau cyfathrebu electronig.
- A2.6 Hefyd, yn unol ag adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015, mae'n ofynnol i ni roi sylw i ddymunoldeb hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ein swyddogaethau rheoleiddio. Er mwyn ystyried hyrwyddo twf economaidd, bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau: a) dim ond pan fo ei angen y cymerir camau rheoleiddio; a b) mae unrhyw gamau a gymerir yn gymesur. Mae canllawiau statudol y llywodraeth ar y ddyletswydd hon yn cydnabod ysgogwyr twf economaidd i gynnwys arloesedd a chystadleuaeth.

²⁷ Adran 3 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

²⁸ Adran 3(5) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

²⁹ Adran 3(7) o'r Ddeddf.

A3. Asesiadau effaith

- A3.1 Mae Adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal a chyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynigion a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd yn gyffredinol, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.
- A3.2 Yn fwy cyffredinol, mae asesiadau effaith yn rhan o lunio polisiau da ac felly rydym yn disgwyl eu cynnal mewn perthynas â mwyafrif helaeth o'n cynigion. Rydym yn defnyddio asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosibl ein penderfyniadau polisi cyn i ni eu gwneud. Maent hefyd yn ein helpu i egluro'r penderfyniadau polisi yr ydym wedi penderfynu eu gwneud a pham rydym yn ystyried bod y penderfyniadau hynny yn cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion cymwys orau yn y ffordd lleiaf ymwithiol. Mae ein [canllawiau asesu effaith](#) yn nodi ein dull cyffredinol o asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.
- A3.3 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010') yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt.
- A3.4 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ('Deddf 1998') yn gosod dyletswydd ar wahân ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal a rhoi sylw i'r dymunoldeb hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae [Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom](#) yn esbonio sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.
- A3.5 Er mwyn ein helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydym yn asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac, yn benodol, a allant wahaniaethu yn erbyn y bobl hynny neu effeithio ar gyfle cyfartal neu berthnasoldeb da. Wrth feddwl am gydraddoldeb, rydym yn meddwl yn ehangach na phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a nodwyd mewn deddfwriaeth cydraddoldeb ac yn meddwl am effeithiau posibl ar wahanol grwpiau o bobl (gweler paragraff 4.7 o'n canllawiau asesiad effaith).
- A3.6 Yn benodol, mae adran 3(4) o Ddeddf 2003 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y mae'n ymddengys i ni eu bod yn berthnasol o dan yr amgylchiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:
- A3.7 bregusrwydd plant ac eraill y mae eu hamgylchiadau'n ymddangos i ni fodroi angen rhoi amddiffyniad arbennig arnynt;
- a) anghenion bobl ag anableddau, pobl hŷn a phobl ar incwm isel; ac
 - b) buddiannau gwahanol pobl yn y gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd trefol.

Ein hasesiad

- A3.8 Yn adrannau 3 a 4 o'r ymgynghoriad hwn rydym yn esbonio ein strategaeth arfaethedig, gan ystyried ffactorau fel tueddiadau ac anghenion y gynulleidfa. Rydym wedi integreiddio ein hasesiad dros dro o effaith ein cynigion polisi at ddibenion adran 7 o Ddeddf 2003 trwy gydol adrannau 3 a 4 ac felly o fewn ein trafodaeth ehangach ar pam yr ydym yn ystyried bod y cynigion hyn yn briodol.
- A3.9 Rydym hefyd wedi archwilio'r effaith bosibl y mae ein polisi yn debygol o gael ar bobl, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol. Mae hyn hefyd yn ein cynorthwyo i sicrhau ein bod yn cyflawni ein prif ddyletswydd o hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, waeth beth fo'u cefndir a'u hunaniaeth.
- A3.10 Nid ydym o'r farn y byddai'r dull polisi arfaethedig a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael unrhyw effaith negyddol ar bersonau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig neu ar unrhyw grwpiau eraill o bersonau, nac y byddai'n gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath nac yn effeithio ar gyfle cyfartal neu berthynas dda. Mewn gwirionedd, rydym o'r farn y gallai gael effeithiau cadarnhaol sylweddol.
- A3.11 O ran radio cymunedol, gwyddom o'u haelodau a'u sefydliad eu bod yn caniatáu i wasanaethau pwrpasol gyrraedd cymunedau gan gynnwys cymunedau crefyddol, cenedlaethol a LHDT+ a allai fod yn rhy fach i gynnal math o drwydded ddrutach. Daeth ein hymchwil yn 2025 ar Fesur Budd Cymdeithasol Radio Cymunedol i'r casgliad hefyd:
- "... mae gorsafoedd radio cymunedol yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu llais i gymunedau lleol ledled y DU. Maent yn blatfform pwysig i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, gan annog hunaniaeth, diwylliant ac ymgysylltiad cymdeithasol lleol. Mae'r gorsafoedd hyn yn cael eu gyrru i raddau helaeth gan wirfoddolwyr ac yn cynnig cymysgedd unigryw o gynnwys a gynhyrchir yn lleol sy'n adlewyrchu diddordebau ac anghenion amrywiol eu cymunedau. Y tu hwnt i adloniant, mae radio cymunedol yn cyfrannu at gynhwysiant cymdeithasol, addysg, cyfranogiad dinesig, a datblygiad economaidd lleol."*
- A3.12 Un o'r ystyriaethau a gymerwyd gennym ar adeg cyflwyno SSDAB oedd hefyd y byddai'n darparu mwy o wasanaethau i fwy o gymunedau ledled y DU nag y byddai'n bosibl trwy fwy o drwyddedu analog. Felly, adlewyrchir manteision posibl radio cymunedol digidol yn ein strategaeth drwyddedu ddiwygiedig arfaethedig, gan ein bod yn bwriadu darparu trwyddedu newydd a chymeradwyo ceisiadau gwella/estyniad sylw ar gyfer radio cymunedol SSDAB yn y dyfodol.
- A3.13 Mae manteision hefyd ar grwpiau penodol a ddaw gan orsafoedd radio cymunedol analog, a all ddod â radio i ardaloedd daearyddol sydd ar hyn o bryd wedi'u tanwasanaethu gan DAB yn y DU lle mae gwasanaethau DAB yn anghynladwy yn ariannol ac mae llai tebygol o fod yn ddarpariaeth o gysylltedd band eang cyflym. Maent hefyd yn dod â manteision i gymunedau lleiafrifol penodol, yn arbennig, gan gyrraedd mewn rhai achosion yr henoed a grwpiau economaidd is, yn ogystal â rhai cymunedau gwledig. Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn ein cynigion, gan ein bod yn bwriadu ystyried gwahodd ceisiadau am drwyddedau radio FM cymunedol newydd.
- A3.14 Trwy gefnogi gwasanaethau sy'n dod â buddion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i gymunedau lleol a lleiafrifol, mae ein cynigion yn hyrwyddo arloesedd a chystadleuaeth ac yn helpu i sicrhau argaeledd parhaus gwasanaethau radio ledled y DU. Maent hefyd yn hyrwyddo twf – er enghraifft, mae estyniadau sylw yn helpu gorsafoedd radio presennol i

dyfu, tra bod trwyddedu newydd, yn gynaliadwy, yn helpu mentrau newydd i lansio a busnesau lleol i'w defnyddio i farchnata eu hunain. Yn y cyfamser, mae cefnogi radio cymunedol yn helpu i ddatblygu cronfa o dalent i helpu'r sector i dyfu yn ei gyfanrwydd. Felly, rydym o'r farn bod ein dull gweithredu yn gyson â'n dyletswyddau, gan gynnwys annog buddsoddiad ac arloesi, hyrwyddo twf economaidd a sicrhau bod y sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon.

- A3.15 Rydym hefyd yn gwybod bod gwasanaethau lleol a digwyddiadau (a ddarperir gan RSLs) yn dod â chymunedau at ei gilydd yn seiliedig ar brofiad a rennir. Rydym hefyd wedi ystyried hyn wrth lunio ein safbwynt polisi.

Y Gymraeg

- A3.16 Yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cafodd y Gymraeg ei gwneud yn iaith a gydnabyddir yn swyddogol yng Nghymru. Arweiniodd y ddeddfwriaeth hon hefyd at sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg sy'n rheoleiddio ac yn monitro ein gwaith. Mae'n ofynnol i Ofcom gymryd ystyriaethau'r iaith Gymraeg i ystyriaeth wrth lunio, adolygu neu ddiwygio polisiau sy'n berthnasol i Gymru (gan gynnwys cynigion nad ydynt wedi'u targedu at Gymru'n benodol ond sydd o ddiddordeb ledled y DU).
- A3.17 Lle mae Safonau'r Gymraeg yn berthnasol, rydym yn ystyried effaith bosibl cynnig polisi ar: (i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym hefyd yn ystyried sut y gellid llunio cynnig er mwyn cael, neu gynyddu, effaith gadarnhaol, neu beidio â chael effeithiau andwyol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol.
- A3.18 Mae nifer o wasanaethau radio cymunedol (analog a digidol) sydd wedi ymrwymo i ddarlledu cynnwys yn Gymraeg. Yn wir, fel yr amlinellir ym mharagraff 3.14 uchod, mae lefelau sylw ar gyfer DAB yng Nghymru yn parhau i fod yn is nag yn Lloegr, felly gallai ein cynnig i barhau â thrwyddedu radio cymunedol analog helpu i ddarparu mwy o ddarpariaeth.
- A3.19 Nid ydym o'r farn bod unrhyw fesurau ychwanegol y gallem eu cymryd y tu hwnt i hyn a fyddai'n cynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Nid ydym ychwaith o'r farn y byddai ein cynigion yn cael unrhyw effaith andwyol ar y Gymraeg neu'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut i ymateb

- A4.1 Hoffai Ofcom dderbyn barn a sylwadau ar y materion a godwyd yn y ddogfen hon, erbyn 5pm ar 08 Ebrill 2026.
- A4.2 [Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb o](#). Gallwch ddychwelyd hwn trwy e-bost neu'r post i'r cyfeiriad a ddarperir yn y ffurflen ymateb.
- A4.3 Os yw'ch ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall ategol, anfonwch e-bost at broadcast.licensing@ofcom.org.uk fel atodiad ar ffurf Microsoft Word, ynghyd â'r daflen flaen.
- A4.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, wedi'i farcio â theitl yr ymgynghoriad:
- Ymgynghoriad ar Flaenoriaethau Trwyddedu / Licensing Priorities Consultation
Tîm Trwyddedu Darlledu – Grŵp Darlledu a'r Cyfryngau
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
- A4.5 Rydym yn croesawu ymatebion mewn fformatau heblaw print, er enghraifft recordiad sain neu fideo iaith Arwyddion Prydain. I ymateb yn BSL:
- > Anfonwch recordiad atom ohonoch chi'n arwyddo eich ymateb. Ni ddylai hyn fod yn hirach na 5 munud. Mae DVDs, wmv neu ffeiliau QuickTime yn fformatau addas; neu
 - > uwchlwythwch fideo ohonoch chi'n arwyddo eich ymateb yn uniongyrchol i YouTube (neu safle cynnal arall) ac anfonwch y ddolen atom.
- A4.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a dderbyniwn (oni bai bod eich ymateb yn gyfrinachol)
- A4.7 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymateb a gyflwynwyd atom drwy e-bost.
- A4.8 Nid oes rhaid i chi ateb yr holl gwestiynau yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych farn; Mae ymateb byr ar un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.
- A4.9 Byddai'n ddefnyddiol pe byddai eich ymateb yn cynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnir yn y ddogfen hon. Mae'r cwestiynau wedi'u rhestru yn **Atodiad A7**. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe gallech esbonio pam eich bod chi'n dal eich barn a beth fyddai effaith cynigion Ofcom.
- A4.10 Os hoffech drafod y materion a'r cwestiynau a nodir yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â ni drwy e-bost yn broadcast.licensing@ofcom.org.uk.

Cyfrinachedd

- A4.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sydd ag adnoddau cyfyngedig neu nad ydynt yn gyfarwydd â'r materion i ymateb mewn ffordd fwy gwybodus. Felly, er budd tryloywder ac arfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod o'r farn ei bod yn bwysig bod

pawb sydd â diddordeb yn y mater yn gallu gweld barn ymatebwyr eraill, rydym fel arfer yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod ac ar ôl y cyfnod ymgynghori.

- A4.12 Os ydych o'r farn y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, nodwch pa rann(au) y mae hyn yn berthnasol iddynt ac esboniwch pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill neu deitl swydd aros yn gyfrinachol, nodwch y rhain ar y daflen flaen yn unig, fel nad oes rhaid i ni olygu'ch ymateb.
- A4.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw rhan o ymateb, neu ymateb cyfan yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu, naill ai trwy beidio â chyhoeddi'r ymateb o gwbl, neu drwy gyhoeddi'r darnau nad ydynt yn gyfrinachol yn unig. Weithiau efallai y byddwn yn meddwl ei bod yn bwysig datgelu rhannau o ymateb sydd wedi'u marcio fel cyfrinachol am resymau tryloywder, ond byddwn yn ymgynghori â chi cyn i ni wneud hynny. Weithiau efallai y bydd gennym ddyletswydd gyfreithiol i gyhoeddi gwybodaeth neu ei datgelu yn y llys, ond eto, cyn belled ag y bo modd, byddwn yn rhoi gwybod i chi.
- A4.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb nad yw'n gyfrinachol gydag adran berthnasol y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.
- A4.15 Noder hefyd y tybir bod hawlfraint a phob eiddo deallusol arall mewn perthynas ag ymatebion yn cael ei drwyddedu i Ofcom i'w ddefnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

Camau nesaf

- A4.16 Yn dilyn y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod haf 2026.
- A4.17 Os ydych yn dymuno, gallwch gofrestru i dderbyn diweddariadau post sy'n eich hysbysu am gyhoeddiadau newydd gan Ofcom.

Prosesau ymgynghori Ofcom

- A4.18 Nod Ofcom yw gwneud ymateb i ymgynghoriad mor hawdd â phosibl. Am ragor o wybodaeth, gweler ein hegwyddorion ymgynghori yn **Atodiad A5**.
- A4.19 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym yn mynd ati i reoli ein hymgyngoriadau, anfonwch e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn croesawu'n arbennig syniadau ar sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth geisio barn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn trwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A4.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road

Llundain SE1 9HA

E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

A5. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae gan Ofcom saith egwyddor y mae'n eu dilyn ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

1. Lle bynnag y bo modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr, i gael gwybod a ydyn ni ar y trywydd cywir. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i esbonio ein cynigion, yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

2. Byddwn yn glir ynglŷn â phwy yr ydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
3. Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori mor fyr a syml â phosibl, gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.
4. Wrth bennu hyd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ystyried natur ein cynigion a'u heffaith bosibl. Byddwn bob amser yn nodi'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion yn glir.
5. Bydd person o fewn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain a'n nod o gyrraedd cymaint o bobl a sefydliadau â phosibl a allai fod â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Dylech gysylltu â Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom os oes gennych farn ar y ffordd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.
6. Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

7. Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld barn pobl eraill, felly rydym fel arfer yn cyhoeddi'r ymatebion ar ein gwefan yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad yn esbonio beth rydym yn mynd i'w wneud, a pham, gan ddangos sut y gwnaeth barn yr ymatebwyr helpu i lunio'r penderfyniadau hyn.

A6. Taflen glawr yr ymgynghoriad

Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

I (cyswllt Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (hunan neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os na dderbynnir drwy e-bost):

Cyfrinachedd

Ticiwch isod pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei ystyried yn gyfrinachol, gan roi eich rhesymau pam

- > Dim byd ☐
- > Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- > Ymateb cyfan ☐
- > Enw'r sefydliad ☐
- > Rhan o'r ymateb ☐

Os gwnaethoch ddewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

Os ydych am beidio â chyhoeddi rhan o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad, a all Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, ar gyfer unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn eich galluogi i gael eich adnabod)?

Ydw ☐ Na ☐

Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth a ddarperir gyda'r daflen glawr hon yn ymateb ymgynghori ffurfiol y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, deallaf y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u marcio fel cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy e-bost, gall Ofcom anwybyddu unrhyw destun e-bost safonol am beidio â datgelu cynnwys ac atodiadau e-bost.

Bydd Ofcom yw cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymghyhoiri ac ar ôl iddo ddod i ben. Os nad yw'ch ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), a byddai'n well gennych i ni gyhoeddi eich ymateb dim ond ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, ticiwch yma.

Enw

Llofnod (os yw'n gopi caled)

A7. Cwestiynau ymgynghori

Dywedwch wrthym sut y daethoch ar draws yr ymgynghoriad hwn.

- ☐ E-bost gan Ofcom
- ☐ Wedi ei weld ar cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan Ofcom
- ☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan arall
- ☐ Wedi clywed amdano ar y teledu neu ar y radio
- ☐ Wedi darllen amdano mewn papur newydd neu gylchgrawn
- ☐ Wedi clywed amdano mewn digwyddiad
- ☐ Rhywun wedi dweud wrtha i amdano neu wedi ei rannu gyda mi
- ☐ Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

Cwestiwn 1 o'r ymgynghoriad:

Ydych chi'n cytuno â'r blaenoriaethau trwyddedu darlledu arfaethedig ar gyfer y tymor byr i ganolig? Rhwch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 2 o'r ymgynghoriad:

Ydych chi'n ystyried y bydd y blaenoriaethau trwyddedu darlledu arfaethedig ar gyfer y tymor byr i ganolig yn darparu darpariaeth ddigonol i gynulleidfaoedd? Rhwch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 3 o'r ymgynghoriad:

Ar gyfer ceisiadau gwella neu estyniad amblecs SSDAB ar ôl lansiad yn unig, a ydych chi'n cytuno â'n newid arfaethedig yn y dull o gymhwyso'r rheol sy'n cyfyngu gorgyffwrdd ag amblecs lleol i 40% o'r boblogaeth sydd eisoes wedi'i gwmpasu gan y amblecs lleol (y "nenfwd 40%")? Rhwch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 4 o'r ymgynghoriad:

Ydych chi'n cytuno â dadansoddiad Ofcom yn adran 3 ac yn Atodiad A1 o'r mathau presennol o drwyddedau darlledu? Rhwch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 5 o'r ymgynghoriad:

Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad ar effaith ein blaenoriaethau trwyddedu darlledu arfaethedig ar gyfer y tymor byr i ganolig yn Atodiad A3? Rhwch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 6 o'r ymgynghoriad:

Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar y cynigion?